# Cwblhau Holiadur Asesu Safleoedd Ymgeisiol

Cynlluniwyd yr Holiadur Asesu Safleoedd Ymgeisiol i sicrhau integreiddio rhwng yr arfarniad o gynaliadwyedd a'r broses o ddethol safle. Bydd yr holiadur yn helpu i sicrhau bod y partïon a chanddynt fuddiant yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud asesiad cadarn.

Mae'r canllawiau canlynol yn ceisio cynnig cymorth i hyrwyddwyr tir a phartïon eraill a chanddynt fuddiant ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'r broses sy'n ymwneud â safleoedd ymgeisiol. Drwy ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl gyda'ch cyflwyniad byddwch yn helpu'r Awdurdod i brosesu ac asesu eich Safle Ymgeisiol yn effeithiol. Dylai unrhyw daflenni parhad neu ddogfennau ychwanegol gael eu hatodi'n ddiogel a'u cyfeirnodi.

Mae'r cyfnod cyflwyno yn dechrau **ddydd Gwener 14 Medi 2018 a rhaid derbyn sylwadau erbyn 5pm, dydd Gwener 9 Tachwedd 2018**. Ni ystyrir unrhyw gyflwyniad sy'n cyrraedd ar ôl yr adeg hon.

Os oes angen gall swyddogion tîm Cynllunio Datblygiadau'r Cyngor eich helpu i gwblhau'r holiadur. Cewch ragor o wybodaeth drwy gysylltu â'r tîm: ffôn 01656 643168 neu e-bost: developmentplanning@bridgend.gov.uk

**Nodwch nad yw cyflwyno safle yn golygu y bydd yn cael ei dderbyn a'i ddyrannu ar gyfer ei ddatblygu gan yr Awdurdod. Bydd cyflwyniadau safleoedd ymgeisiol i gyd ar gael ar ffurf Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol er mwyn i'r cyhoedd eu harchwilio ac felly ni ellir eu hystyried yn gyflwyniadau cyfrinachol.**

## Beth i'w gynnwys yn eich cyflwyniad

Mae'n rhaid i'r wybodaeth ar gyfer pob cyflwyniad gynnwys y canlynol o leiaf:

- Holiadur Asesu Safleoedd Ymgeisiol wedi ei gwblhau. Dylid cwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob safle unigol a gyflwynir.
- Cynllun cyfredol o'r safle (ar fap sylfaenol OS, graddfa 1:1250 neu 1:2500) gyda ffin y safle wedi ei lliwio'n goch a ffin unrhyw dir ychwanegol sy'n eiddo i'r un perchennog wedi ei lliwio'n las. Gellir prynu mapiau OS o www.OrdnanceSurvey.co.uk

## Manylion Cyswllt

Cyflwynwch yr holl fanylion cyswllt perthnasol. Nodwch os byddwch yn enwebu asiant yna anfonir pob gohebiaeth at eich asiant.

## Manylion y Safle

Nodwch leoliad y safle gan gynnwys cynllun cyfredol ar fap wedi ei seilio ar fap OS gyda ffin y safle wedi ei lliwio'n goch. Dylai'r cynllun fod ar raddfa 1:1250 neu 1:2500. Dylai ffin unrhyw dir ychwanegol sy'n eiddo i'r un perchennog gael ei lliwio'n las. Nodwch hefyd Gyfeirnod Grid yr OS os yw'n hysbys.

**Arwynebedd y Safle mewn Hectarau**

Dylai cyflwyniadau safleoedd ymgeisiol nodi arwynebedd y safle a gynigir mewn hectarau. Ar gyfer safleoedd ymgeisiol preswyl, y trothwy isaf yw 10 o anheddau neu arwynebedd o 0.25 hectar o leiaf. Serch hynny, fe dderbyniwn ni gyflwyniadau ynghylch safleoedd ymgeisiol preswyl llai o faint a bydd angen adolygu'r ffin anheddiad. Caiff y rhain eu hystyried fel rhan o asesiad ffin anheddiad neu asesiadau defnydd tir eraill. Ni cheir trothwy isaf ar gyfer unrhyw gyflwyniadau eraill ynghylch safleoedd defnydd tir.

**Defnydd Presennol y Safle**

Dylai cyflwyniadau nodi defnydd presennol y safle. Mae hyn yn cynnwys defnydd tir megis tai, manwerthu, cyflogaeth, defnydd masnachol, defnydd cymunedol, hamdden ac ati. Ar gyfer defnydd cymysg, nodwch yr amrywiaeth o ddefnydd.

**Statws Cynllunio Presennol**

Dylai cyflwyniadau nodi os oes gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer defnydd sy'n wahanol i'r defnydd presennol. Os yw'n gymwys, dylid darparu manylion sy'n dangos beth yw'r rhesymau na chafodd y safle ei ddatblygu ar gyfer y defnydd hwnnw.

**Defnydd Arfaethedig y Safle**

Dylai'r cyflwyniadau nodi'r defnydd arfaethedig o dir y safle. Mae hyn yn cynnwys defnydd tir megis tai, manwerthu, cyflogaeth, masnachol, defnydd cymunedol, hamdden neu'r

defnydd presennol yn parhau. Ar gyfer defnydd cymysg, nodwch yr amrywiaeth o ddefnydd. Ar gyfer defnydd masnachol, nodwch bob defnydd a fydd yn creu cyflogaeth os yw'n hysbys ar hyn o bryd.

Ar gyfer defnydd preswyl nodwch nifer yr unedau. Os nad yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd, defnyddiwch y dwysedd 35 o anheddau ar bob hectar.

## Cyffredinol

**A yw'r cynigydd yn berchen ar y safle cyfan?**

Dylai cynigwyr tir nodi eu bod yn berchen ar y safle sy'n cael ei gyflwyno. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyflwyniadau nad ydynt yn berchen i'r cynigydd, yn gyffredinol yn parhau â'r defnydd presennol gyda chyfyngiad ar unrhyw ddatblygiad o'r safle yn y dyfodol. Serch hynny, pan fo'r cynigydd eisiau cyflwyno tir i'w gynnwys yn y cynllun datblygu lleol ac nid yw'n berchen ar y safle cyfan, dylai nodi sut y gellir cyflawni hyn. A gysylltodd â pherchennog y tir ac a yw'r perchennog yn fodlon bod y safle o bosibl yn mynd i gael ei ddatblygu? Os felly, dylai cynigydd y tir ddarparu tystiolaeth i brofi hynny.

**A oes unrhyw gyfamodau cyfyngol yn gysylltiedig â defnyddio'r tir / adeiladau o fewn y safle?**

Os yw'r cynigydd yn ymwybodol o unrhyw gyfamodau sy'n ymwneud â'r tir o fewn y safle sy'n cyfyngu ar ei ddefnydd, dylai roi manylion. Mae hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw adeiladau ar y safle. Nodwch sut y bydd y cyfamod yn effeithio ar eich cynnig.

**A fyddai dyrannu'r safle yn golygu y byddai'n rhaid addasu ffin anheddiad o fewn CDLl Pen-y-bont ar Ogwr a fabwysiadwyd?**

Nodwch os yw'r safle a gyflwynir wedi ei leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffin anheddiad presennol y CDLl. Mae map cynigion y CDLl *https://www.bridgend.gov.uk/media/1895/proposals-map.pdf*) yn caniatáu i hyrwyddwyr nodi terfynau datblygu anheddiad yn gysylltiedig â'u safle (Edrychwch ar Bolisi PLA1 am restr o aneddiadau).

**A fyddai dyrannu'r safle yn golygu y byddai'n rhaid newid y defnydd tir a geir o fewn y CDLl a fabwysiadwyd?**

Os yw'r safle yr ydych yn dymuno ei hyrwyddo wedi ei ddyrannu yn y CDLl ar gyfer defnydd gwahanol i'r un yr ydych yn ei gynnig, nodwch yr enw a'r rhif polisi sy'n ymwneud â'r defnydd presennol. Gellir cael y wybodaeth hon drwy edrych ar y safle ar fapiau cynigion y CDLl. Mae'r polisiau perthnasol i'w cael ar *https://www.bridgend.gov.uk/media/1899/written-statement.pdf*

## Hygyrchedd

**A oes modd cael mynediad i'r safle o'r brifffordd gyhoeddus?**

Dylai cynigwyr nodi oes neu nag oes. Os nag oes yw'r ateb yna dylid rhoi manylion ynghylch sut y gellir cyflawni mynediad i'r brifffordd gyhoeddus. Pe bai angen defnyddio tir trydydd parti i gyflawni mynediad, dylid rhoi manylion unrhyw gysylltiad a wnaed gyda pherchnogion tir trydydd parti a dylid cynnwys eu manylion cyswllt.

**A yw'r safle o fewn 400 metr i fan lle gellir cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, hynny yw gorsaf drên neu safle bws?**

Rhowch fanylion unrhyw fan lle gellir cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus o fewn 400 metr i'r safle. Dylid cynnwys amlder y gwasanaeth a gwybodaeth am safleoedd pen y daith. Os yw'r cyfleuster agosaf dros 400 metr o'r safle yna nodwch y pellter.

**A yw'r safle o fewn 400 metr i lwybr teithio gweithredol?**

Rhowch fanylion y llwybrau neu'r llwybrau arfaethedig sydd o fewn 400 metr i'r safle. Os yw'r cyfleuster agosaf dros 400 metr o'r safle yna nodwch y pellter.

**A yw'r safle o fewn 400 metr i gyfleuster cymunedol?**

Rhowch fanylion unrhyw gyfleusterau cymunedol sydd o fewn 400 metr i'r safle. Gallai'r rhain gynnwys neuaddau cymunedol, canolfanau ieuenctid, siopau, gwasanaethau masnachol ac ati. Os yw'r cyfleuster agosaf dros 400 metr o'r safle yna nodwch y pellter.

**A yw'r safle o fewn 400 metr i fan agored cyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd?**

Rhowch fanylion unrhyw fan agored cyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn 400 metr i'r safle. Os yw'r cyfleuster agosaf dros 400 metr o'r safle yna nodwch y pellter.

## Amgylcheddol

**A yw'r safle mewn ardal lle ceir perygl llifogydd neu wrth ymyl cwrs dŵr?**
Dylid cyfeirio datblygiad newydd oddi wrth barth C a thuag at dir addas ym mharth A, neu fel arall i barth B lle bydd llifogydd afonol neu arfordirol yn llai pwysig. Ym mharth C bydd y profion a amlinellir yn adrannau 6 a 7 TAN15 yn berthnasol, gan gydnabod serch hynny na ddylid caniatáu datblygiad sy'n agored iawn i niwed a Gwasanaethau Brys ym mharth C2. Yr unig adeg y dylid caniatáu datblygiadau newydd eraill ym mharthau C1 ac C2 yw pan fydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu bod cyfiawnhad i'w leoli yno. Gellir cael gwybodaeth am TAN 15 yma: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)

Er mwyn i safleoedd ymgeisiol o fewn parthau â risg o lifogydd fod yn dderbyniol o ran egwyddor, mae'n rhaid iddynt gael eu cefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n nodi y

gellir rheoli canlyniadau'r datblygiad hwnnw i lefel sy'n dderbyniol ar gyfer natur / y math o ddatblygiad a gynigir.

Nid cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw asesu pa mor dderbyniol yw Asesiadau Canlyniadau Llifogydd, serch hynny y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru eu derbyn a bydd angen tystiolaeth o hyn cyn cyflwyno'r Safle Ymgeisiol. Bydd y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer asesu'r safle.

Dylai cynigwyr nodi y gallai'r Awdurdod Cynllunio ofyn am ragor o wybodaeth / tystiolaeth yn ystod proses safleoedd ymgeisiol pan fo ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu materion sy'n cynnwys llanw, afonol, llifogydd dŵr wyneb ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

**A yw'r safle ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen?**

Dylai cynigwyr nodi pa un ai yw'r tir a gyflwynir yn cael ei ystyried yn dir a ddatblygwyd o'r blaen neu'n dir heb ei ddatblygu. Ceir diffiniad o dir a ddatblygwyd o'r blaen yn Rhif 4.4 o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9:

https://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-4-cy.pdf

Nodwch fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio ar Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru. Roedd y drafft ar gyfer yr ymgynghoriad yn cynnwys yr un diffiniad o Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen â'r hyn a gafwyd uchod.

**A fyddai datblygu'r safle yn arwain at golli tir amaethyddol (sy'n cael ei ddefnyddio heddiw neu sydd wedi'i ddefnyddio yn y gorffennol)?**

Os byddai'r cynnig yn arwain at golli unrhyw dir amaethyddol, nodwch: gategori'r tir amaethyddol; a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaeth ar hyn o bryd a faint o dir amaeth fyddai'n cael ei golli. Ceir rhagor o wybodaeth am Gategoreiddio Tir Amaethyddol yma: Categorïau-tir-amaethyddol /beta.gov.wales

**A yw'r safle mewn ardal wedi ei gwarchod o safbwynt dibenion tirwedd, ecoleg neu ddiwylliant, yn lleol, rhanbarthol neu'n genedlaethol?**

Dylai cynigwyr nodi os gallai datblygu'r safle effeithio ar nodweddion tirwedd neu ecoleg neu rywogaethau a warchodir. Os felly, dylid darparu manylion categoreiddio priodol.

**A fyddai'r cynnig yn effeithio ar gymeriad y dirwedd, amwynder gweledol neu ar leoliad asedau treftadaeth?**

Dylai cynigwyr y tir nodi os byddai'r datblygiad yn effeithio'n negyddol ar gymeriad y dirwedd, amwynder gweledol neu ar leoliad asedau treftadaeth. Os felly, esboniwch sut gellid cadw neu wella'r nodweddion sydd ar y safle neu gerllaw. Mae'r rhain yn cynnwys tirweddau hanesyddol, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Ceir rhagor o wybodaeth gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent a Cadw

**A oes risg y gallai'r safle gynnwys tir halogedig?**

Os credir fod unrhyw ran o'r safle a gynigir yn cynnwys tir halogedig, dylai'r cynigydd roi manylion ynglŷn â ffynonellau'r halogiad posibl.

**A oes arolwg wedi ei gynnal ar y safle o safbwynt gwarchod rhywogaethau?**

Rhowch fanylion unrhyw arolwg o'r safle a gynhaliwyd hyd yn hyn.

**A fyddai'r cynnig yn cynnwys technoleg sy'n cynhyrchu ynni carbon isel neu ynni di-garbon?**

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ynghylch y defnydd o dechnoleg sy'n cynhyrchu ynni carbon isel neu ynni di-garbon.

**Ar gyfer cynigion amhreswyl, a fyddai angen awdurdodiadau eraill ar gyfer defnyddio'r safle, er enghraifft, trwydded amgylcheddol, trwydded tynnu neu gronni dŵr, neu drwydded rheoli gwastraff?**

Rhowch fanylion unrhyw awdurdodiadau eraill nad ydynt wedi eu nodi hyd yn hyn ac y bydd eu hangen ar gyfer y defnydd tir a gynigir.

## Cyd-destun y Safle

**Ar gyfer cynigion preswyl, a yw'r safle yn agos i fannau diwydiannol neu weithleoedd?**

Os yw'n bosibl, nodwch unrhyw ddefnydd o'r fath ar gynllun i'w gynnwys gyda'ch cyflwyniad.

**Os yw'r cynnig yn ymwneud â datblygu cyflogaeth/gwastraff/mwynau, a oes eiddo preswyl yn agos i'r safle neu o fewn 200 metr i'r safle?**

Os yw'n bosibl nodwch unrhyw ddefnydd o'r fath ar gynllun i'w gynnwys gyda'ch cyflwyniad.

**A ydych chi'n credu y bydd y defnydd a gynigir yn integreiddio â'r defnydd presennol o amgylch y safle?**

Esboniwch eich ateb gan roi cymaint o fanylion â phosibl

**Ar gyfer cynigion yn cynnwys echdynnu mwynau neu ddefnyddio ffynonellau naturiol eraill, a oes angen arbennig am y defnydd hwn ar y safle?**

Esboniwch eich ateb gan roi cymaint o fanylion â phosibl

## Cyfleustodau

**A fydd hi'n bosibl cysylltu'r safle â'r gwasanaethau canlynol? Dŵr o'r prif gyflenwad, cyflenwad trydan, ffôn llinell dir, carthffosiaeth, cyflenwad nwy, band eang, unrhyw beth arall.**

Ar gyfer pob gwasanaeth dylai'r cynigydd nodi bydd neu na fydd. Os mai na fydd yw'r ateb, disgrifiwch sut y ceir mynediad at y gwasanaeth hwn.

## Cyflawni

**A ydych mewn trafodaethau â datblygwyr posibl?**

Os bu trafodaethau â datblygwyr posibl neu feddianwyr y dyfodol, rhowch fanylion.

**A yw'r safle yn ariannol hyfyw i'w ddatblygu?**

Nodwch y gallai'r Cyngor ofyn am asesiad hyfywedd er mwyn dangos a fyddai'n hyfyw ei gyflawni o fewn amserlen y CDLl. Gallai peidio â darparu hwn olygu na chaiff y safle ei ystyried ymhellach. Bydd natur y wybodaeth y bydd angen ei darparu o fewn yr asesiad yn cael ei drafod yn fanylach gyda'r cynigydd ar y pryd.

**A oes unrhyw gyfyngiadau eraill i'w goresgyn y gwyddoch amdanynt?**

Rhowch fanylion unrhyw gyfyngiadau eraill y gwyddoch amdanynt nad ydynt wedi eu nodi hyd yn hyn a allai effeithio ar gyflawni'r safle. Nodwch sut y gellir goresgyn y cyfyngiadau.

**A yw sadrwydd / topograffi'r safle yn rhwystr i'r datblygiad?**

Rhowch fanylion unrhyw nodweddion sadrwydd / topograffi'r safleoedd y gwyddoch amdanynt, a dangos sut y gellir goresgyn y rhain.

**Nodwch amserlen fras ar gyfer cyflawni'r safle:**

Dylai cynigwyr safleoedd roi amserlen fras ar gyfer datblygu'r safle. Dylid ystyried unrhyw gyfyngiadau a nodwyd eisoes yn yr holiadur wrth lunio'r amserlen. Mae'n rhaid i safleoedd ymgeisiol gael eu cyflawni o fewn cyfnod arfaethedig y CDLl.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol nad yw wedi ei chynnwys yn y cwestiynau blaenorol.